Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

ARCHIF DDARLLEDU GENEDLAETHOL

Einion Gruffudd, Rheolwr Prosiect, Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Bydd y cyflwyniad ar ffurf fideo gan gynnwys cyflwyniad a chlipiau wedi eu dewis o'r archif.

Bydd y drafodaeth yn ffocysu ar y ffaith bod yr archif ddarlledu yn un genedlaethol, mewn sefydliad cenedlaethol, ac yn gallu datblygu dehongli ar raddfa amrywiol a soffistigedig.

Ar ol dechrau gyda chyflwyniad i'r archif, bydd cyflwyniad i'r gweithgareddau, gan gynnwys y rhai lleol "Sense of Place" a "Remaking Memories"

Yn dilyn hynny bydd ffocws ar y gweithgareddau mwy "Cenedlaethol" gan gynnwys Clip Addysg fydd yn edrych ar y cyfleoedd i ymgorffori'r ffynhonell o fewn meysydd llafur addysg, Clip Cymraeg i gefnogi dysgu Cymraeg, Clip Creadigol fydd yn annog datblygiad o'r Archif i bwrpasau creadigol amrywiol, a datblygiad metadata, fydd yn cynnwys gweithgareddau arloesol i alluogi gwirfoddolwyr i gyfrannu arlein i alluogi darganfod mwy o gyfoeth yn yr archif yma.

Bydd y cyflwyniad yn gorffen gyda thrafodaeth o ddata cysylltiedig / linked data, fydd yn canolbwyntio ar y cysylltiad rhwng yr hanesion a adroddir yn yr archif ddarlledu a'r hyn sy'n cael ei gofnodi mewn ffynonellau eraill gan gynnwys wrth gwrs ffynonellau y Llyfrgell Genedlaethol, bydd y prosiect yn anelu i ddatblygu'r profiad cyfunol yma mewn ffordd ymarferol i ymwelwyr rhithiol a chorfforol y Llyfrgell Genedlaethol.

Bywgraffiad

Wedi dechrau ei yrfa gyda chwmni teledu Barcud yng Nghaernarfon, mae Einion wedi treulio y rhan fwyaf o'i yrfa yn Llyfrgell Gendlaethol Cymru yn gweithio gyda llawysgrifau, technoleg gwybodaeth yna'n rheoli prosiect Cynefin i ddigido mapiau degwm cyn cychwyn ar brosiect i sefydlu'r Archif Ddarlledu Genedlaethol.